Datganiadau Corfforaethol ar gyfer y Wefan

Datgarboneiddio

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) wedi ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau ei ôl troed carbon trwy weithgareddau comisiynu ystyriol. Lle bo'n bosibl a chan ystyried anghenion pob claf, darperir gwasanaethau yn agos at adref, gan gynnwys drwy fynediad digidol a rhithwir, gyda chadwyn gyflenwi ar gyfer darparu gwasanaethau a chyfalaf cysylltiedig sy'n adlewyrchu ymrwymiad PGIAC. Rydym yn cefnogi ystyriaethau ac ymddygiad staff sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatgarboneiddio. Mae'r rhain yn cynnwys teithio llai a theithio effeithlon a defnyddio cerbydau trydan lle bo hynny'n bosibl.